

**Degfed cyfarfod Grŵp Ecosystem yr Ucheldir
Y Drenewydd
12 Ionawr 2012**

Yn bresennol: Charles Morgan (PONT), Jan Sherry (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), John Farrar (Prifysgol Bangor), Mariecia Fraser (Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Aberystwyth), Steve Chambers (Llywodraeth Cymru), Dafydd Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Clive Faulkner (Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn), Gareth Ellis (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog), Peter Dennis (Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Aberystwyth), Peter Jones (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), Helen Buckingham (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Julia Korn (Cyngor Cefn Gwlad Cymru)

Ymddiheuriadau: Sian Whitehead (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), Peter Jennings (yn ymddiswyddo), Bev Lewis (Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn), Joe Daggart (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Reg Thorpe (Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar), John Healy (Prifysgol Bangor)

1. Rhaglen waith ar gyfer y dyfodol

Caiff is-grŵp bach ei sefydlu i lunio drafft cyntaf o raglen waith erbyn y cyfarfod nesaf.

Caiff y canlynol eu cynnwys yn y rhaglen waith:

- Adolygiad o Fframwaith yr Ucheldir a'r modd y mae'r mapiau yn cysylltu â'r mapiau o ardaloedd sy'n flaenoriaeth. Byddai'r gwaith hwn yn dechrau â chynllun peilot sy'n canolbwyntio ar y prosiect Futurescapes, sy'n ymdrin â rhesych y gogledd-ddwyrain, a'r ardal y mae Prosiect Mawndir Powys yn ymdrin â hi. Dylai pawb barhau i ddefnyddio mapiau Fframwaith yr Ucheldir fel adnodd gweledol yn y cyfamser.
- Gweithredu mewn perthynas â rhostir mynyddig – er y cafwyd trafodaethau llwyddiannus â rhai cominwyr, mae rhai'n dal heb ymuno. Rhoddwyd cynnig ar amryw dechnegau ymgysylltu, ac oni bai bod pawb sy'n pori'r tir yn ymrwmo i gytundeb ni fydd yn bosibl codi ffens o amgylch unrhyw ardaloedd o rostir mynyddig ar y Carneddau.
- Mapio blaenoriaethau: mae'r cam cyntaf yn barod i'w ddsbarthu. Mae angen i gamau gweithredu ar gyfer y dyfodol gael eu hegluro yn y rhaglen waith.
- Dylai'r rhaglen waith gynnwys camau gweithredu cyffredinol sy'n ofynnol gan bob Grŵp Ecosystem, sy'n codi o gyfarfodydd y Cadeiryddion, Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac ati.

Camau gweithredu

Bydd JK/JS yn sefydlu is-grŵp bach, a fydd yn cynnwys CM a JK, i lunio fersiwn ddrafft o raglen waith ar gyfer 2012/13.

Bydd JS yn sefydlu is-grŵp i ddatblygu cynlluniau peilot er mwyn treialu gwaith adolygu Fframwaith yr Ucheldir.

Bydd JS yn cysylltu â Dave Lamacraft a Sarah Mellor ynghylch y mapiau blaenoriaethau ar gyfer llinos y mynydd yn Nyffryn Ogwen.

Bydd JS yn trafod camau gweithredu'n ymwneud â mapio blaenoriaethau â Sian Whitehead, gan gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu ymrwymiad drwy gynllun partneriaeth strategol y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar ar gyfer 2012/13.

Bydd CM yn cysylltu â John Ratcliffe i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ynghylch gwarchod rhostir mynyddig.

Bydd CM yn arwain y gwaith o sefydlu is-grŵp i gynllunio ar gyfer rhostir mynyddig.

Bydd yr is-grŵp yn ystyried darnau bach o dir amgaeedig ar Elidir Fach a Phen Helyg Du fel lleiniau arbrosi amgen.

Bydd SC yn trafod materion sy'n ymwneud â rhostir mynyddig â chydweithwyr yn yr Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol, ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru arwain camau gweithredu ynghylch y mater er mwyn bodloni gofynion y gyfarwyddeb cynefinoedd.

2. Y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid

- Cronfa Cydnerthedd, Amrywiaeth a Chydymffurfiaeth Ecosystemau Llywodraeth Cymru: Llwyddodd pob un o'r tri argymhelliad ar gyfer yr ucheldir i gael cyllid drwy'r gronfa hon. Mae pob un o'r prosiectau'n gwneud cynnydd da, ac mae'r Migneint wedi cael arian ychwanegol o ganlyniad i danwariant. Awgrymwyd y dylai'r Gweinidog, John Griffiths AC, ymweld â rhai o'r prosiectau a ariennir gan Gronfa Cydnerthedd, Amrywiaeth a Chydymffurfiaeth Ecosystemau Llywodraeth Cymru. Gallai ymweliad â'r Migneint gael ei gynnwys yn y rhaglen ar gyfer cynhadledd yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur ar wlyptiroedd ym Mangor ym mis Mehefin.
- Prosiect Mawndir Powys: Mae cais am gyllid bioamrywiaeth y rhaglen LIFE wrthi'n cael ei ddatblygu, a bydd yn ymdrin â gwellt y gweunydd ac yn mynd i'r afael â phroblemau erydu. Mae'n bwysig ymgysylltu'n gynnar â Defra a all helpu i werthu'r cais yn Ewrop.

Mae angen i Grŵp yr Ucheldir gefnogi ceisiadau sy'n ymdrin â'i flaenoriaethau brys. Dylai geisio ehangu'r sylfaen sefydliadol er mwyn cyflawni ei amcanion, gan fod hynny'n fodd i gyflwyno syniadau, arbenigedd a chyfleoedd newydd. Mae'n bwysig sicrhau bod prosiectau o safon yn cael eu datblygu sy'n dangos gwerth gwirioneddol am arian.

Camau gweithredu

Bydd JK yn arwain ymarfer i fapio blaenoriaethau ar sail cyfleoedd am gyllid yn rhan o'r rhaglen waith. Mae angen grŵp a fydd yn ymgysylltu â chynrychiolaeth eang er mwyn cyflawni'r gwaith hwn.

Bydd JK yn cynnal trafodaethau â Sian Whitehead ynghylch y trefniadau ar gyfer cynhadledd yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur ac ynghylch a fyddai modd gwahodd y Gweinidog i lansio'r **???? ac ymweld â'r Migneint.**

Bydd HB yn cysylltu â David Mitchell (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) i drafod ymwneud yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol â Phrosiect Mawndir Powys. Dylai aelodau Grŵp yr Ucheldir gynnig cymorth i geisiadau sy'n cyflwyno prosiectau o safon sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau ar gyfer yr ucheldir.

3. Cyfathrebu

- Gweithdy ar yr Ucheldir ym Mannau Brycheiniog: Cynhaliwyd gweithdy llwyddiannus ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym mis Tachwedd 2011, a diolchwyd i'r sawl a gefnogodd y digwyddiad. Cynhyrchodd y cyfranogwyr restr o ganlyniadau y dylai Grŵp yr Ucheldir geisio eu cyflawni.
- Gweithdy ar yr Ucheldir yn y gogledd: Awgrymwyd y dylid cynnal y gweithdy hwn yn rhan o weithdy Futurescapes y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.
- Gweithdy ar yr Ucheldir yn ystod yr hydref: Cynhelir y gweithdy hwn yn ardal orllewinol cymoedd y de. Gellid archwilio'r cyfleoedd a gyflwynir gan gamau i wneud iawn am adeiladu ffyrdd. Gallai'r gweithdy ganolbwyntio ar ddatblygu – y bygythiadau a'r cyfleoedd.

Camau gweithredu

Bydd CM yn dosbarthu'r rhestr o ganlyniadau ar gyfer Grŵp yr Ucheldir y cytunwyd arnynt yn ystod y gweithdy a gynhaliwyd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Bydd JS yn siarad â John Clark (Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar) ynghylch ymuno â Futurescapes i gynnal y gweithdy ar yr Ucheldir yn y gogledd.

Bydd GE yn gofyn i Paul Sinnardurai a yw'r ffordd newydd ar hyd y cymoedd yn cynnig dull o wneud iawn am golli bioamrywiaeth, ac a oes cyfleoedd ar gyfer yr ucheldir?

4. Adolygu Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru

Rhoddydwyd y wybodaeth ddiweddaraf. Mae strwythur Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a rolau a chyfrifoldebau'r grwpiau sy'n rhan ohoni wedi'u nodi yn Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru (ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru). Mae'r grwpiau (y Grŵp Llywio, y grwpiau arbenigol ar lefel Cymru a phartneriaethau lleol), y gwaith y maent yn ei wneud a'r modd y maent yn gweithio yn cael eu hadolygu. Y prif ffactorau sy'n gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen yw Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a thargedau Ewropeaidd a rhyngwladol newydd ynghylch bioamrywiaeth ac ecosystemau. Mae ffrydiau gwaith wedi'u sefydlu i ystyried y gwahanol grwpiau, gan gynnwys grŵp dan arweinyddiaeth Julia sy'n edrych ar y Grwpiau Ecosystem a Grŵp Canlyniad 21. Mae Grŵp Canlyniad 21 yn canolbwyntio ar gyrraedd y targedau a nodwyd yn y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer sicrhau cyflwr ffafriol ar safleoedd. Adroddir ynghylch cynnydd o safbwynt yr adolygiad hwn ym mis Mai i'r grwpiau rhaglenni newydd a sefydlir i oruchwylio'r gwaith o drosglwyddo i Un Corff Amgylcheddol yng Nghymru a goruchwylio'r gwaith sy'n ofynnol er mwyn cyflawni dan Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

Caiff yr ymgynghoriad ynghylch Papur Gwyrdd Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol ei lansio ar 30 Ionawr a bydd yn dod i ben ar 3 Mai.

Camau gweithredu

Bydd JK yn adrodd ynghylch y gwaith o adolygu Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ystod cyfarfod nesaf Grŵp yr Ucheldir.

Bydd JK yn cynnal trafodaeth â Tracey Lovering ynghylch yr awgrym y dylai Diana Reynolds fynychu cyfarfod Cadeiryddion Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ym mis Mawrth i gynnal sesiwn awr o hyd ar bapur gwyrdd Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Wedi'i wneud.

Bydd CW, CM a HB yn gofyn i Lywodraeth Cymru pam nad yw wedi sicrhau siaradwr o safon ym maes yr amgylchedd ar gyfer y lansiad.

5. Adrodd ynghylch cynefinoedd yn ystod 2011

Mae adroddiadau ynghylch cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth wedi'u cyflwyno i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol bob tair blynedd ers 1999, ac maent wedi bod yn seiliedig yn bennaf ar farn arbenigwyr oherwydd diffyg data. Ychydig cyn y Nadolig gofynnodd Defra i bob gwlad gyflwyno adroddiadau ar sail targedau 2010 ar gyfer cynefinoedd.

Mae gwybodaeth ar gael ar ffurf y canlynol:

- Yr arolwg cefn gwlad
- Data amaeth-amgylcheddol
- Data am Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
- Rhywfaint o ddata am Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Data o waith monitro prosiectau unigol.

Fodd bynnag, mae diffyg strategaeth fonitro'n golygu na cheir dull strategol o weithredu. Mae angen i Lywodraeth Cymru arwain y gwaith o ddod â setiau data sy'n bodoli eisoes ynghyd.

Nid oes eglurder ynghylch pam y mae gofyn i Gymru adrodd ynghylch y targedau sy'n ymwneud â chynefinoedd. Fodd bynnag, mae angen gwella'r modd y caiff data monitro ei grynhoi ac adnabod y bylchau. Mae Rhaglen Lywodraethu Cymru yn cynnwys canlyniad sy'n ymwneud â chefnogi ecosystemau iach. Mae'r dangosyddion yn cynnwys % y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n sefydlog neu sy'n gwella a nifer y llynnoedd, yr afonydd a'r arfordiroedd sydd â statws ecolegol da.

Camau gweithredu

Bydd JS yn arwain y gwaith o lunio pwyntiau allweddol a ddylai gael eu rhannu â Llywodraeth Cymru, drwy law Chris Lea, ynghylch yr angen am ddata a'r diffyg strategaeth i lywio'r mater hwn yn strategol.

Bydd JK yn dosbarthu canlyniad seminar monitro'r Ganolfan Ymchwil Amgylcheddol a gynhaliwyd dair blynedd yn ôl.

Bydd SS yn datgan yn glir wrth Lywodraeth Cymru mai dim ond adroddiadau ar sail barn arbenigol y mae Cymru yn gallu eu cyflwyno ar hyn o bryd.

Bydd PD yn dosbarthu Strategaeth Monitro Bioamrywiaeth y DU, a luniwyd yn dilyn Seminar y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg.

Bydd SC yn dod â gwybodaeth i Gr p yr Ucheldir am y strategaeth fonitro ar gyfer Glastir.

6. Bylchau o ran ymchwil

Darparodd Peter Dennis a Mariecia Fraser y wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil gan Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig.

- Prosiect PHD yn edrych ar ddirywiad y cwtiad aur ac adar hirgoes eraill – ceir diffyg data cadarn ynghylch y ffactorau sy'n sbarduno'r

dirywiad hwn. Gofynnwyd a fyddai modd cysylltu ymchwil â phrosiect adfer Pumlumon. Mae hefyd yn berthnasol i Abergwesyn.

- Mae Steph McGowan/Chris Evans (Y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg) yn ailymweld â safleoedd rhaglenni biolegol o'r 1930au, ac maent yn ailadrodd arolygon pridd a llystyfiant gan ddefnyddio'r un technegau. Maent yn archwilio newid ac yn ei gysylltu â'r sbardunau, e.e. gwaith rheoli llygredd. Mae'r prosiect yn cynnwys y tu mewn a'r tu allan i diroedd amgaeedig er mwyn ystyried effeithiau pori (yng Nghwm Idwal ac ar yr Wyddfa).
- Systemau da byw – canllawiau ar gyfer cyflawni newid a chyflawni gwaith cynnal a chadw ar ôl newid. Dyma'r cwestiynau a godwyd ynghylch rheoli: pryderon amaeth-amgylcheddol ynghylch y cyfraddau stocio a bennwyd, h.y. nid ydynt yn ystyried maint/math o anifail. A yw'n gywir seilio'r gyfradd ar nifer yr anifeiliaid neu a ddylid ei seilio ar eu pwysau'n fyw?
- Gwaith torri – y flwyddyn olaf yn hynt cais y rhaglen LIFE. Mae tanbori yn broblem fawr. Os bydd gwaith torri'n digwydd, a oes cynnyrch bio-ynni ar gael sy'n seiliedig ar safleoedd Natura? Sut mae annog anifeiliaid i bori ardaloedd sydd wedi'u torri? Mae gwahanol fridiau'n addas ar gyfer gwahanol gynefinoedd.
- Ar hyn o bryd mae prosiect Abergwesyn yn defnyddio coleri GPS ar y gwartheg. Efallai y bydd modd i PD ddod o hyd i fyfyrwr MSc i ddehongli'r data ac archwilio'r modd y mae'r gwartheg yn defnyddio ardal y prosiect. Gallai hynny gynnwys gwaith arsylwi. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn ariannu'r prosiect, felly byddai angen cynnwys y Cyngor wrth ddatblygu gwaith MSc.
- Cyfeiriodd PD at Brosiect BioBio yr Undeb Ewropeaidd sy'n datblygu dangosyddion bioamrywiaeth ar gyfer systemau ffermio organig â mewnbwn isel. Mae'r dangosyddion hyn yn cael eu datblygu'n seiliedig ar hygredded gwyddonol ac adborth gan randdeiliaid ar draws 14 o wledydd Ewrop. Mae'r data yn cael ei ddadansoddi, ac ar hyn o bryd mae pryfed genwair, pryfed cop, cacwn, adar a phlanhigion uwch yn cael eu hystyried. Mae'r dull gweithredu wedi mabwysiadu cynefin yr arolwg cefn gwlad at ddibenion samplu.

Bu'r drafodaeth yn canolbwyntio ar yr angen i ddangos tystiolaeth o'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau, ac yn benodol tystiolaeth o'r gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan yr ucheldir ar sail llifoedd ecosystem. Ar hyn o bryd, caiff penderfyniadau rheoli eu gwneud ar sail diffyg gwybodaeth am brosesau sy'n rhoi gwasanaethau i ni. Mae ymchwil sy'n cefnogi gwaith rheoli cynefinoedd yn briodol yn ein galluogi i ddeall y prosesau'n well.

Camau gweithredu

Bydd HB yn rhoi PD ac MF mewn cysylltiad â Joe Daggart ynghylch potensial prosiect Abergwesyn i ddatblygu prosiect MSc sy'n dehongli data o goleri GPS a data gwaith arsylwi er mwyn llywio opsiynau rheoli yn y dyfodol.

Bydd MF/PD yn cynnal trafodaethau â JD a staff y Cyngor Cefn Gwlad ynghylch y defnydd posibl y gellid ei wneud o goleri ar gyfer prosiectau ymchwil yn y dyfodol.

Bydd PD yn anfon crynodeb o waith prosiect BioBio at CM/JK i'w ddsbarthu i'r gr p.

Bydd JK yn anfon y wybodaeth am waith BioBio at Alys Edwards (gr p monitro cynnydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru) ac at David Allen yn y Cyngor Cefn Gwlad.

Bydd CM yn trefnu cynhadledd fideo i gytuno ar fylchau allweddol yn y dystiolaeth am yr ucheldir ac i sicrhau y caiff y wybodaeth honno ei chynnwys yn y rhaglen waith ar gyfer 2012/13 neu'r blynyddoedd wedyn.

Bydd PD yn dosbarthu blaenoriaethau gwyddonol Defra o safbwynt bioamrywiaeth.

Bydd JK, gyda Shaun Russell, yn mynd ar drywydd rôl y Ganolfan o safbwynt casglu gwybodaeth am waith ymchwil blaenorol/cyfredol ar draws y DU, gan fynd i'r afael â'r bylchau. (A fydd CM yn cynnwys SR yn y cyfarfod fideo uchod?)

Bydd angen i bawb anfon eu syniadau ynghylch bylchau mewn tystiolaeth am yr ucheldir at CM.

Bydd CM yn arwain gr p bach er mwyn cytuno ar y prif fylchau ar gyfer 2012/13 (gan gynnwys HB, JF, MF, PD, SC a chynrychiolydd o'r Cyngor Cefn Gwlad).

7. Y cyfarfod nesaf

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cynnwys ymweliad maes â'r prosiect yn Nhorfaen. Cynhelir cyfarfod yr hydref yn adeilad Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yn Aberystwyth.

Camau gweithredu

- **Bydd CM yn trefnu'r cyfarfod nesaf, a gynhelir ar 5 Gorffennaf yn Nhorfaen, a'r ymweliad maes.**
- **Bydd PD yn trefnu cyfarfod yr hydref.**
- **Bydd JK yn helpu gyda'r ddau gyfarfod.**

8. Unrhyw fater arall

Mae ymchwil ynghylch phytophthora yn dangos bod cynnydd mewn perthynas â rhostir wedi bod yn araf, ac mae'n debyg bod hynny oherwydd i ni gael sawl gwanwyn sych. Mae'r ffaith bod phytophthora yn ymledu ar draws coetiroedd yn parhau'n broblem. Gofynnwyd i bobl fod yn wylidwrus a rhoi gwybod i'r Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd ar unwaith os byddant yn gweld phytophthora.

Cyfarfod cynllunio Llywodraeth Cymru.

Cam gweithredu: Bydd CM yn mynychu ac yn cynrychioli Gr p yr Ucheldir.

Negeseuon allweddol

- **Gofynnir i bartneriaid ystyried a oes ganddynt unrhyw brosiectau posibl ar gyfer yr ucheldir, yn enwedig prosiectau mewn ardaloedd bioamrywiaeth sy'n flaenoriaeth, a gofynnir iddynt drafod y prosiectau hynny â chynrychiolwyr Gr p yr Ucheldir. Byddai'n ddefnyddiol pe bai modd cael prosiectau wrth law y gellir eu datblygu'n gyflym mewn ymateb i ddulliau cyllido newydd.**
- **Ar hyn o bryd mae Gr p yr Ucheldir yn casglu gwybodaeth ar frys am fylchau mewn ymchwil. Os hoffai unrhyw un gyfrannu syniadau i'r gwaith**

hwn, anfonwch nhw'n uniongyrchol at Charles Morgan erbyn diwedd mis Chwefror.

- **Mae gwybodaeth am phytophthora ynghlwm. Byddwch yn wylidwrus a rhowch wybod i'r Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd ar unwaith os byddwch yn dod ar draws unrhyw achosion yr ydych yn amau eu bod yn achosion o phytophthora.**